

Y PWYLLGOR ADOLYGU GWEITHREDOL

11 Rhagfyr 2019

Yn Bresennol: Cynghorydd K Doolin (Cadeirydd)

Cynghorydd ML Evans, Cynghorydd P Harries, Dr M Havard, Mrs J James, Cynghorydd PJ Morgan, Cynghorydd A Wilcox a'r Cynghorydd S Yelland.

(Swyddfa'r APC, Parc Llanion, Doc Penfro: 1.15pm – 2.50pm)

1. Ymddiheuriadau am absenoldeb

Derbyniwyd ymddiheuriad am fod yn absennol oddi wrth Dr R Plummer.

2. Datgan Buddiannau

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

3. Cofnodion

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 25ain o Fedi 2019 i'w cadarnhau a'u llofnodi.

PENDERFYNWYD cadarnhau a llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 25ain o Fedi 2019.

4. Y Prosiect Llwybrau – Adolygiad ar ôl 2 flynedd o gyflawni'r prosiect

Dywedwyd bod y prosiect Llwybrau bellach wedi bodoli am ddwy flynedd mewn cyfnod o dair blynedd a hanner o ariannu gan Lywodraeth Cymru. Roedd gweithgareddau'r prosiect yn canolbwyntio ar y manteision iechyd, llesiant a datblygiad a gynigir gan weithgareddau yn yr awyr agored, a rhennir y prosiect i ddau faes gwaith, sef darparu sesiynau ymarferol o gymorth gwirfoddoli ar gyfer unigolion, a datblygu gallu sefydliadau eraill i fanteisio ar y buddiannau y mae defnydd cyson o'r awyr agored yn ei gynnig i'w cleientau.

Roedd yr adroddiad yn rhoi gwybodaeth am nifer y bobl a'r grwpiau sydd wedi cymryd rhan yn y prosiect yn ogystal â throsolwg o'r gweithgareddau oedd wedi'u cynnal, a rhai o'r heriau a wynebwyd.

Roedd yr adroddiad yn nodi bod pwyslais cryf ar werthuso i grisialu'r effaith oedd y prosiect yn ei gael ar y rhai oedd yn cymryd rhan, ac roedd y swyddogion wedi gwahodd dau o bobl oedd wedi cymryd rhan yn y prosiect i rannu eu profiadau gyda'r Pwyllgor.

Y cyntaf o'r ddau oedd Laura Phillips, Cydlynnydd Sbardun Sir Benfro, sef prosiect Sir Benfro yn Dysgu, sy'n cynnig cyrsiau am ddim i oedolion a theuluoedd mewn partneriaeth â 10 o ysgolion Sir Benfro. Eglurodd mai drwy'r



bartneriaeth â'r Parc Cenedlaethol, roedd wedi cael ei hysgogi i ystyried dysgu yn yr awyr agored fel rhan allweddol o'r amrywiaeth o gyrsiau a gynigir gan Sbardun. Roedd hi hefyd wedi cael ei chyflwyno i Wobr John Muir oedd yn annog cyfranogwyr i ddarganfod, ymchwilio, dysgu a rhannu'r awyr agored. Soniodd am y brwdfrydedd a'r ysbrydoliaeth a gynigir gan y Parcmon Darganfod oedd yn rhedeg yr ochr hon o'r prosiect, oedd wedi galluogi ei thîm i helpu eraill. Ychwanegodd bod 1,000 a mwy o bobl wedi bod yn rhan o'r dysgu yn yr awyr agored o ganlyniad i hyn, a bod y profiad wedi newid bywyd rhai o'r dysgwyr, gan eu gwneud i feddwl yn wahanol am eu bywydau a'u hardal leol.

Yr agwedd arall o'r prosiect oedd gweithio gyda gwirfoddolwyr unigol, nifer ohonynt angen cymorth i wneud gwaith gwirfoddol yn yr awyr agored, ac er mwyn cyflawni hyn eglurodd Swyddog Gwirfoddoli Llwybrau bod angen cymorth yr Arweinyddion Gwirfoddoli arno, a chyflwynodd Kate Rastall oedd yn un o'r gwirfoddolwyr hynny. Eglurodd Kate ei bod wedi bod yn gwirfoddoli gyda'r Parc Cenedlaethol ers blynyddoedd ac wedi gweithio gyda nifer o grwpiau drwy amrywiol sefydliadau. Fodd bynnag y grŵp Llwybrau oedd y mwyaf cefnogol a chynhwysol ohonynt i gyd; roedd Llwybrau yn canolbwyntio ar y dasg oedd angen ei chyflawni ar y cyd yn hytrach nag ar anawsterau a phroblemau unigolion. Roedd pobl o bob oed ac o bob cefndir yn wirfoddolwyr, a nifer ohonynt yn dioddef anabledau dysgu ac anhwylderau corfforol a meddyliol. Serch hynny roedd y grŵp yn gweithio fel tîm lle'r oedd pobl yn gwrando ar ei gilydd ac yn parchu ei gilydd, ac roedd hyn yn llesol iawn iddynt mewn sawl ffordd yn y tymor hir. Yn ogystal â dysgu sgiliau newydd, roedd y gwirfoddolwyr yn falch o'u llwyddiannau, yn dod yn fwy heini a hyderus i ymgymryd â heriau eraill yn ogystal â chyfoethogi eu dealltwriaeth a'u gwybodaeth o fywyd gwyllt a'r awyr agored.

Gan ddiolch i Laura ac i Kate am rannu eu storïau ysbrydoledig, plaser i'r Aelodau oedd clywed am yr effaith y mae'r prosiect yn ei gael, er eu bod yn dymuno gweld mwy o ymwneud â'r cymunedau Cymraeg eu hiaith yn Sir Benfro. Eglurodd y swyddogion eu bod yn awr yn ymchwilio i ffynonellau eraill o ariannu prosiect i olynu'r prosiect hwn, a gwahoddwyd yr Aelodau i ymuno â hwy yn unrhyw un o'u sesiynau, a chytunwyd i ddosbarthu manylion am ddyddiadau a lleoliadau'r sesiynau hyn.

NODWYD

5. Gwirfoddoli

Roedd yr adroddiad oedd gerbron y Pwyllgor yn egluro bod gwirfoddolwyr wedi bod yn cyfrannu at waith yr Awdurdod Parc Cenedlaethol am hanner canrif os nad mwy. Tan yn ddiweddar roedd y mwyafrif yn gwirfoddoli yn eu hardal leol gyda'u parcmon lleol fel Wardeniaid Gwirfoddol, yn bennaf yn cyflawni tasgau ymarferol o waith cadwraeth mewn grŵp. Fodd bynnag yn y blynyddoedd diweddar roedd Gwirfoddolwyr Gweithgareddau wedi arwain ac wedi cefnogi'r rhaglen amrywiol o Weithgareddau a Digwyddiadau, ac roedd y prosiect Llwybrau (y cyfeirir ato yng nghofnod 4) wedi'i gyflwyno i gynnig cyfleoedd i wirfoddoli â chymorth.



Aeth y Swyddog Datblygu Gwirfoddoli rhagddi i egluro bod teitl ei swydd yn dangos bod rôl gwirfoddoli yn yr Awdurdod yn newid gyda chyfleoedd am fwy o amrediad o waith ar draws yr Awdurdod yn ogystal â phwyslais ar y buddiannau personol a chymdeithasol y gall gwirfoddoli ei roi i unigolion. Roedd Cynllun Gweithredu wedi'i ddatblygu i wireddu'r nodau hyn, ac roedd yr amcanion wedi'u nodi yn yr adroddiad. Hefyd roedd y Fforwm Gwirfoddolwyr wedi cefnogi'r nodau a'r amcanion hyn, fforwm a sefydlwyd i roi llais i'r gwirfoddolwyr ac i wella'r cysylltiadau rhwng gwirfoddolwyr a'r Awdurdod. Awgrymwyd y byddai cynrychiolaeth o blith yr Aelodau ar y Fforwm yn fanteisiol, ac y byddai hyn yn cael ei ystyried yn y cyfarfod nesaf o'r Awdurdod Parc Cenedlaethol.

Diolchodd yr Aelodau i'r swyddog am gyflwyniad ysbrydoledig arall oedd yn dangos y gwaith gwirioneddol ardderchog a wneir ar draws yr Awdurdod.

NODWYD

[Ymddiheurodd Mrs J James, Dr M Havard a'r Cynghorydd P Harries gan adael y cyfarfod yr adeg hon. Effaith hyn oedd bod y cyfarfod bellach heb gworwm. Serch hynny, gan nad oedd penderfyniadau i'w gwneud, derbyniwyd yr eitemau oedd yn weddill er gwybodaeth yn unig.]

6. Oriol y Parc – Blaenoriaethau i'r Dyfodol

Dywedwyd bod cynlluniau busnes wedi'u paratoi yn ystod haf 2019 ar gyfer y tair canolfan ar draws y Parc Cenedlaethol, ac roedd cynllun Oriol y Parc wedi'i atodi i'r adroddiad.

Roedd y Cynllun yn amlinellu'r amgylchedd twristiaeth yng Nghymru ar hyn o bryd, ac yn cyflwyno'r cefndir ar gyfer Oriol y Parc o fewn y sector twristiaeth ehangach yng Nghymru ac yng ngwledydd Prydain. Roedd y ddogfen yn rhoi crynodeb o ffigurau ymwelwyr â'r ganolfan a'r proffil ariannol yn ogystal â chanlyniadau'r ymgynghori â'r staff a'r gwirfoddolwyr. Defnyddiwyd y wybodaeth hon wedyn i greu'r weledigaeth, y nodau a'r blaenoriaethau ar gyfer Oriol y Parc am y tair blynedd nesaf.

Y prif gasgliad o'r canfyddiadau oedd y byddai'r safle yn elwa o gael pecyn o fuddsoddi fyddai'n ail-sefydlu ac yn ail-frandio Oriol y Parc fel Canolfan Ddarganfod y Parc Cenedlaethol gyda gwasanaethau a chyfleusterau i ysbrydoli pobl o bob oed i ymchwilio'r dirwedd, yr hanes, y diwylliant a threftadaeth y Parc Cenedlaethol. Ymhlith y blaenoriaethau oedd dulliau cyflwyno'r safle, datblygiad masnachol a gwybodaeth i ymwelwyr. O ganlyniad i'r cyllid gan Lywodraeth Cymru yn ddiweddar ar gyfer prosiectau, byddai'r gwaith hwn yn cychwyn cyn hir i weithredu'r blaenoriaethau hyn.



Daeth y Rheolwr â'i hadroddiad i ben drwy atgoffa'r Aelodau y bydd yr Arddangosfa newydd "Mwydod! Byd Rhyfeddol Mwydod" yn cael ei lansio ar y 25ain o Ionawr 2020 ac y byddai pob Aelod yn derbyn gwahoddiad.

NODWYD.

7. Adroddiad Perfformiad am y Cyfnod yn Diweddu 31 Hydref 2019

Roedd yr adroddiad perfformiad a roddwyd gan y Cydlynnydd Perfformiad a Chydymffurfiaeth yn dilyn strwythur y Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau ar gyfer 2019-20, ac yn dilyn y saith o amcanion llesiant, ac adran ychwanegol oedd yn cyflwyno gwybodaeth gyffredinol am lywodraethu.

Roedd yr adroddiad yn cyflwyno'r perfformiad hyd at yr 31^{ain} o Hydref 2019 ac yn cynnwys ystadegau chwarter 1 a 2 (Ebrill – Medi) ar gyfer rhai setiau data. Lle'r oedd y ffrydiau gwaith, mesurau neu gamau gweithredu yn ymwneud â dyletswydd Adan 6 o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) roeddynt wedi'u labelu yn unol â hynny. Nodwyd bod nifer o'r camau gweithredu yn felyn neu'n goch a bod y rhain yn ymwneud â meysydd lle nad oedd y gwaith wedi cychwyn eto, swyddi oedd wedi bod yn wag, neu bod angen gwneud rhagor o waith i symud ymlaen â'r gweithgareddau. Rhagwelwyd y dylai'r gweithgareddau symud o goch a melyn i wyrdd wrth gymryd camau ymlaen gydol y flwyddyn.

Roedd yr adroddiad yn tynnu sylw at nifer o feysydd gwaith lle'r oedd y sgorio Coch Melyn Gwyrdd yn goch, gan gynnwys cynllunio, hyfforddiant Golwg ar y Parc, y prosiect Llwybrau Celtaidd, dysgu yn yr awyr agored a lechyd a Diogelwch, ac yn rhoi diweddariad ar y camau a gymerir.

Diolchodd yr Aelodau i'r swyddog am y gwaith aruthrol a wneir.

NODWYD

8. Cofrestr Risg

Gofynnwyd i'r Aelodau ystyried y Gofrestr Risg ddiweddaraf. Dywedodd y Rheolwr Cyllid bod y Timau Rheoli ac Arweinyddiaeth wedi adolygu'r gofrestr risg, a nodwyd y camau ymlaen a wnaed yn ddiweddar a'r newidiadau. Roedd un cam gweithredu arall wedi'i ychwanegu i'r gofrestr o ran y Clefyd Coed Ynn.

NODWYD

9. Grŵp Gwelliant Parhaus: dirprwyo materion

PENDERFYNWYD nad oedd unrhyw faterion yr oedd angen eu dirprwyo i'r Grŵp Gwella Parhaus i'w hystyried.

